

Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 9 Gorffennaf 2002

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghanol De Cymru

C4 Jonathan Morgan: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am effaith y gyllideb ddiweddar yn y DU ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghanol De Cymru? (OAQ18823) *Trosglwyddwyd ar gyfer ateb ysgrifenedig.*

Prif Weinidog Cymru (Rhodri Morgan): Mae'n rhy fuan i ddweud. Mae'r holl adnoddau a ddatganwyd yng nghyllideb mis Ebrill y Canghellor ar gyfer y blynyddoedd o 2003-04 ymlaen. Caiff dyraniad yr adnoddau i gyllidebau penodol eu hystyried fel rhan o gylch presennol cynllunio'r gyllideb.

Atebwyd cwestiynau 5, 6, 7, 8, 9, 11 a 12 yn y Cyfarfod Llawn. Tynnwyd cwestiwn 10 yn ôl.

Gofal Lliniarol yn y Gorllewin

C13 Helen Mary Jones: Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda'i gyd-Weinidog, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ynghylch y ddarpariaeth gofal lliniarol yn y Gorllewin? (OAQ18837)

Prif Weinidog Cymru: Cyfrifoldeb awdurdodau iechyd yw darparu gwasanaethau gofal lliniarol ar draws Cymru ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mater i Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yw'r fframwaith strategol ar gyfer darpariaeth o'r fath. Bydd Jane Hutt yn gwneud datganiad ar y mater hwn i'r Cynulliad Cenedlaethol ddydd Iau.

Materion Trawsbynciol

C14 Pauline Jarman: A wnaiff y Prif Weinidog wneud datganiad am ei flaenoriaethau fel cydgysylltydd materion trawsbynciol am y chwe mis nesaf? (OAQ18835)

Prif Weinidog Cymru: Ymysg fy mlaenoriaethau dros y chwe mis nesaf fel cydlynnydd materion trawsbynciol, bwriadaf fynychu uwch-gynhadledd y byd ar ddatblygu cynaliadwy fel rhan o ddirprwyaeth y DU. Byddaf yn llywyddu digwyddiad a fydd yn amlygu'r cynnydd y mae'r Cynulliad yn ei wneud tuag at sicrhau Cymru gynaliadwy, a gobeithiaf drafod arfer da â nifer o arweinwyr llywodraethau is-genedlaethol o wahanol rannau o'r byd.

Tynnwyd cwestiwn 15 (OAQ18824) yn ôl.